

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

# Rhoi gwybod am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig yn refferendwm yr UE sydd am wybod mwy am sut i roi gwybod am roddion a benthyciadau yn ystod cyfnod y refferendwm.

Rhoi gwybod am roddion a  
benthyciadau cyn y bleidlais

CPE Ar-lein  
EU-PPR

Cynnwys:

Amserlen rhoi gwybod am roddion  
a benthyciadau cyn y bleidlais

Beth yw rhoddion a benthyciadau

Beth sydd angen i chi roi

gwybod amdano

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [publications@electoralcommission.org.uk](mailto:publications@electoralcommission.org.uk)

## Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio arian a gwariant gwleidyddol mewn ffordd sy'n effeithiol, yn gymesur ac yn deg. Rydym yn ymrwymedig i roi dealltwriaeth glir i'r rheini a reoleiddiwn o'u rhwymedigaethau rheoliadol drwy ein canllawiau a'n gwasanaeth cynghori. Os nad ydych yn siŵr sut mae unrhyw rai o'r rheolau hyn yn gymwys i chi, ffoniwch ni am gyngor. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Rydym hefyd yn cymryd camau gorfodi, gan ddefnyddio ein pwerau ymchwiliol a sancsiynau, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni ein nodau ac amcanion gorfodi.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gallwch chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. Mae mwy o wybodaeth am ddull gorfodi'r Comisiwn yn

[www.electoralcommission.org.uk/cymru/party-finance/enforcement](http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/party-finance/enforcement)

# Rhoi gwybod am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE

## Ar gyfer pwy y mae'r ddogfen hon:

Ymgyrchwyr refferendwm cofrestredig (heb gynnwys pleidiau gwleidyddol wedi'u cofrestru yn y DU), a'r rhai sy'n bwriadu cofrestru, sydd am wybod mwy am sut i roi gwybod am roddion a benthyciadau penodol yn ystod cyfnod y refferendwm.

## Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r canlynol:

- Beth yw ystyr rhoi gwybod am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais
- Beth yw rhoddion
- Beth a olygwn gan fenthyciadau
- Beth sydd angen i chi roi gwybod amdano

## Dogfennau cysylltiedig:

- [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)
- [Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Benthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Gwariant ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)

## Ffurflenni:

- [EUR-PPR – Adroddiad ar roddion a benthyciadau cyn y bleidlais](#)

# Crynodeb

O dan Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015, rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig a'r rhai sy'n cofrestru'n ddiweddarach gofnodi unrhyw roddion a gânt ac unrhyw fenthyciadau y byddant yn eu trefnu a rhoi gwybod i ni amdanynt yn rheolaidd cyn ac ar ôl dyddiad y bleidlais.

Mae'r canllawiau hyn yn egluro beth y mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni amdano a'r dyddiadau ar gyfer gwneud hyn.

Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei chofnodi ac yn ei rhoi i ni nawr yn eich helpu i lenwi ffurflen gwariant eich ymgyrch ar ôl y refferendwm hefyd.

# Beth yw ystyr rhoi gwybod am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais?

O 1 Chwefror 2016 nes dyddiad y refferendwm, rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig a phob un sy'n bwriadu dod yn ymgyrchwyr cofrestredig, gofnodi'r holl roddion dros £500 y maent yn eu cael a'r holl fenthyciadau y maent yn eu trefnu yn ystod y cyfnod hwn.

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno adroddiadau cyn y bleidlais erbyn dyddiadau cau penodol, gan nodi pa roddion a gafwyd a pha fenthyciadau a drefnwyd ganddynt ar neu ar ôl 1 Chwefror 2016 ar gyfer ymgyrch y refferendwm sy'n werth dros £7,500. Mae hyn yn cynnwys rhoddion a gafwyd cyn i'r ymgyrchydd gofrestru. Rydym yn galw'r rhain yn adroddiadau cyn y bleidlais am eu bod yn cynnwys rhoddion a benthyciadau a gafwyd cyn y bleidlais. Bydd angen i ymgyrchwyr gyflwyno pedwar adroddiad i ni, tri ohonynt cyn dyddiad y bleidlais ac un ar ôl y bleidlais.

Rhaid i chi gadw cofnodion cywir nawr o unrhyw roddion neu fenthyciadau gwerth dros £7,500 a gewch o 1 Chwefror a ddefnyddiwch neu y bwriadwch eu defnyddio ar ymgyrch y refferendwm (boed hynny cyn neu yn ystod cyfnod swyddogol y refferendwm) fel y gallwch gydymffurfio â'r gofyniad adrodd hwn.

Rhaid i chi ddatgan pob rhodd a gewch sydd werth dros £7,500 hyd yn oed os byddwch yn ei dychwelyd yn ddiweddarach, naill ai cyn neu ar ôl cwblhau'r adroddiad cyn y bleidlais.

I gael rhagor o wybodaeth am ba gofrestrau y mae angen i chi eu gwirio, gweler y ddogfen hon:

- [Yr hyn a ganiateir i ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

Byddwch yn gallu cyflwyno eich adroddiadau cyn y bleidlais [ar-lein](#) neu drwy gwblhau a dychwelyd [EUR-PPR - Adroddiad ar roddion a benthyciadau cyn y bleidlais](#). Rhaid i chi wneud datganiad yn yr adroddiad eich bod wedi archwilio'r adroddiad cyn y bleidlais a'i fod, hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred, yn adroddiad cyflawn a chywir fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith

### **Pleidiau gwleidyddol**

Nid yw pleidiau gwleidyddol cofrestredig yn y DU nad ydynt yn fân pleidiau yn cyflwyno adroddiadau cyn y bleidlais nac yn rhoi gwybod am roddion ar ôl y refferendwm ond yn lle hynny maent yn rhoi gwybod amdanynt yn eu hadroddiadau chwarterol arferol. Ceir canllawiau ar wahân ar wirio pa roddion a ganiateir a rhoi gwybod am roddion ar gyfer pleidiau gwleidyddol ym Mhrydain Fawr [yma](#) ac ar gyfer pleidiau yng Ngogledd Iwerddon [yma](#).

## Amserlen rhoi gwybod am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig lenwi a chyflwyno adroddiadau cyn y bleidlais. Mae'r rhain yn cynnwys yr holl roddion a geir a'r holl fenthyciadau a drefnir gwerth dros £7,500 yn ystod pob cyfnod adrodd. Rhaid i chi gyflwyno adroddiadau cyn y bleidlais hyd yn oed os nad ydych wedi derbyn unrhyw roddion a/neu fenthyciadau y mae angen i chi roi gwybod amdanynt. Gelwir yr adroddiadau hyn yn 'adroddiadau gwag'.


Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfnodau adrodd a'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno'r adroddiadau cyn y bleidlais i ni.

<b>Cyfnod adrodd</b>	<b>Dyddiad cau ar gyfer adroddiadau cyn y bleidlais</b>
1 Chwefror - 21 Ebrill	28 Ebrill
22 Ebrill - 12 Mai	19 Mai
13 Mai - 9 Mehefin	16 Mehefin
10 Mehefin - 22 Mehefin	29 Mehefin

Os byddwch yn cofrestru ar neu ar ôl 22 Ebrill, rhaid i'ch adroddiad cyntaf gynnwys yr holl roddion a gafwyd a'r holl fenthyciadau a drefnwyd gwerth dros £7,500 o 1 Chwefror.



# Trosolwg o roi gwybod am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais



## Beth yw rhodd?

Rhodd yw arian, nwyddau, eiddo neu wasanaethau a roddir:

- tuag at eich gwariant ar ymgyrchu
- heb godi tâl neu ar delerau anfasnachol

ac sy'n werth dros £500.

Mae rhai enghreifftiau o roddion yn cynnwys:

- rhodd arian neu fath arall o eiddo
- noddi digwyddiad neu gyhoeddiad
- taliadau tanysgrifio neu daliadau ymlyniad
- defnydd am ddim, neu am bris gostyngol arbennig, o eiddo neu gyfleusterau, er enghraifft defnydd o swyddfa

I gael rhagor o wybodaeth am fathau o roddion a sut i'w prisio, gweler

- [Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

## Pryd rydych yn 'cael' rhodd?

Rydych fel arfer yn 'cael' rhodd ar y diwrnod rydych yn dod yn berchen arni.

Er enghraifft:

- os rhoddir taflenni am ddim i chi, rydych yn cael y rhodd pan gaiff y taflenni eu trosglwyddo i chi
- os rhoddir siec i chi, rydych yn cael y rhodd ar y diwrnod y mae'r siec yn cael ei chlirio
- os trosglwyddir rhodd yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc rydych yn cael y rhodd ar y dyddiad rydych yn edrych ar eich cyfrif neu'r dyddiad rydych yn cael eich hysbysu bod y banc wedi'i chael, pa ddyddiad bynnag sydd gynharaf

Rhaid i chi gyflwyno adroddiadau cyn y bleidlais hyd yn oed os nad ydych wedi derbyn unrhyw roddion a/neu fenthyciadau y mae angen i chi roi gwybod amdanynt. Gelwir yr adroddiadau hyn yn 'adroddiadau gwag'.

## Pa fenthyciadau a gwmpesir?

Dim ond benthyciadau a thrafodion tebyg eraill rydych yn eu trefnu mewn perthynas â'ch gwariant ar yr ymgyrch a gwmpesir.

Mae hyn yn cynnwys:

- benthyciadau ariannol
- cyfleusterau credyd, megis cardiau credyd a gorddrafftiau
- sicrwydd neu warantau ar gyfer rhwymedigaethau ymgyrchydd i rywun arall

## Beth sydd angen i chi roi gwybod amdano?

Rhaid i chi roi gwybod am yr holl roddion a geir neu fenthyciadau a drefnir gwerth dros £7,500 ar ôl 1 Chwefror 2016. Mae hyn yn cynnwys rhoddion a gafwyd a benthyciadau a drefnwyd cyn i chi ddod yn ymgyrchydd cofrestredig, a chyn ac yn ystod cyfnod y refferendwm, ar yr amod y cawsant eu rhoi at ddibenion eich ymgyrch.



### Rhoddion

Ar gyfer pob rhodd dros £7,500 rhaid i chi gofnodi:

- enw llawn y rhoddwr (os yw'n hysbys)
- cyfeiriad, neu gyfeiriad cofrestredig, y rhoddwr (os yw'n hysbys)
- y dyddiad y cawsoch y rhodd
- y swm (ar gyfer rhodd ariannol) neu natur a gwerth (ar gyfer rhodd anariannol)
- Os oes gan rhoddwr gofrestrriad dienw, rhaid i chi ddarparu datganiad i gadarnhau eich bod wedi gweld tystiolaeth bod gan yr unigolyn gofnod dienw ar y gofrestr.

Os cafwyd y rhodd gan ymddiriedolaeth, cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd angen i chi roi gwybod amdano.

I gael rhagor o wybodaeth am fathau o roddion a sut i'w prasio, gweler

- [Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm](#)

### Benthyciadau a chyfleusterau credyd

Ar gyfer pob benthyciad neu gyfleuster credyd, rhaid i chi gofnodi:

- natur y trafodyn - p'un a yw'n fenthyciad neu'n gyfleuster credyd
- enw llawn a chyfeiriad y benthyciwr (i'r graddau y mae'n hysbys)
- y dyddiad y trefnwyd y benthyciad

- y dyddiad y mae disgwyl i'r benthyciad gael ei ad-dalu neu ddatganiad ei fod yn benagored neu, fel arall, sut y caiff y dyddiad ei bennu o dan y cytundeb
- gwerth y benthyciad
- y gyfradd llog - neu sut y caiff y gyfradd ei phennu o dan y cytundeb, neu ddatganiad nad oes unrhyw log yn daladwy
- p'un a roddwyd unrhyw sicrwydd ar gyfer y benthyciad
- p'un a yw'r cytundeb yn cynnwys darpariaeth sy'n golygu y gellir ychwanegu llog nas talwyd at unrhyw swm ar gyfer yr amser sy'n ddyledus mewn perthynas â'r benthyciad neu'r cyfleuster credyd
- ar ôl i chi gofrestru fel ymgyrchydd, os trefnwyd benthyciad gyda rhywun nad yw'n fenthyciwr a ganiateir, y dyddiad yr ymdriniwyd â'r trafodyn, a'r ffordd yr ymdriniwyd ag ef yn unol â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol
- os trefnwyd benthyciad gyda rhywun sy'n fenthyciwr a ganiateir gyda chofnod dienw mewn cofrestr etholwyr, atodwch eu 'tystysgrif cofrestrriad dienw'

I gael rhagor o wybodaeth am fathau o fenthyciadau a sut i'w prisio, gweler:

- [Trosolwg o fenthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm](#)

### Sicrwydd a gwarantau

Ar gyfer sicrwydd a gwarantau, rhaid i chi gofnodi:

- natur y trafodyn - pa fath o drefniant ydyw yn ôl y math o sicrwydd a roddir
- enw a chyfeiriad y gwarantwr (i'r graddau y mae'n hysbys)
- y dyddiad y rhoddwyd y warant neu'r sicrwydd
- y swm y byddai'r gwarantwr yn atebol amdano pe bai achos o ddiffygdlu
- disgrifiad o brif nodweddion y trafodyn
- manylion am unrhyw ystyriaeth a roddwyd yn gyfnewid am hynny, neu ddatganiad na roddwyd ystyriaeth
- os yw'r sicrwydd yn cynnwys hawliau dros eiddo, natur yr eiddo hwnnw

- ar ôl i chi gofrestru fel ymgyrchydd, os trefnwyd trafodyn gyda rhywun nad yw'n fenthyciwr a ganiateir, y dyddiad yr ymdriniwyd â'r trafodyn, a'r ffordd yr ymdriniwyd ag ef yn unol â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol
- os trefnwyd trafodyn gyda rhywun sy'n fenthyciwr a ganiateir gyda chofnod dienw mewn cofrestr etholwyr, atodwch 'dystysgrif cofrestriad dienw'

Byddwch yn gallu cyflwyno eich adroddiadau cyn y bleidlais [ar-lein](#) neu drwy gwblhau a dychwelyd [EUR-PPR - Adroddiad ar roddion a benthyciadau cyn y bleidlais](#).

Mae adroddiad Excel ar roddion a benthyciadau cyn y bleidlais ar gael [yma](#)

## Pwy sy'n gyfrifol am gyflwyno'r adroddiadau?

Rhaid i ymgyrchwyr benodi a chofrestru 'unigolyn cyfrifol' â ni. Os ydych yn ymgyrchydd unigol, chi fydd yr 'unigolyn cyfrifol'.

Ni allwch weithredu fel unigolyn cyfrifol ar gyfer mwy nag un ymgyrchydd.



Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod yr ymgyrchydd yn y refferendwm yn cydymffurfio â'r rheolau ac yn cyflwyno'r adroddiadau cyn y bleidlais yn brydlon. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol wneud datganiad i ddweud bod yr adroddiadau yn gyflawn ac yn gywir.

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll.

I gael rhagor o wybodaeth am rôl a chyfrifoldebau unigolyn cyfrifol, gweler ein canllawiau [Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm](#).

## Rhoi gwybod am roddion a benthyciadau ar ôl y refferendwm

Rhaid i chi hefyd gofnodi manylion am wariant, rhoddion a benthyciadau yn ffurflen gwariant eich ymgyrch ar ôl y refferendwm.

### **Rhoddion a benthyciadau**

Rhaid i chi gofnodi:

- pob rhodd a benthyciad a ganiateir dros £7,500
- pob rhodd a benthyciad a ganiateir sy'n gwneud cyfanswm o dros £7,500 o'r un ffynhonnell
- pob rhodd nas caniateir
- cyfanswm gwerth y rhoddion a dderbyniwyd a chyfanswm gwerth y benthyciadau a drefnwyd gwerth dros £500 na chawsant eu cynnwys fel arall yn yr adroddiadau

Rhaid i chi gynnwys yr holl fanylion a nodwyd yn [Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#) a [Benthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#) mewn perthynas â phob rhodd a benthyciad yn eich ffurflen gwariant.

Rhaid i chi roi gwybod eto am yr holl roddion a benthyciadau rydych eisoes wedi eu cofnodi yn eich adroddiadau cyn y bleidlais ar ôl y refferendwm.

### Gwariant

Os byddwch yn gwario **dros £10,000** ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm, rhaid i chi roi gwybod i ni am eich gwariant yn eich ffurflen gwariant ar ymgyrchu.

Rhaid i'ch ffurflen gwariant gynnwys y canlynol:

- cofnodion o'ch gwariant
- anfonebau a derbynebion ar gyfer unrhyw daliad dros £200
- datganiad gan yr 'unigolyn cyfrifol' i ddweud bod y ffurflen yn gyflawn a chywir

Os ydych wedi cydweithio ag ymgyrchydd arall, rhaid i chi gynnwys y canlynol:

- cofnodion o'ch gwariant
- anfonebau a derbynebion ar gyfer unrhyw daliad dros £200
- enw'r ymgyrchydd arall
- cyfanswm gwariant yr ymgyrchydd arall yn ystod yr ymgyrch

Os ydych wedi cofrestru fel ymgyrchydd refferendwm a'ch bod yn gwario **£10,000 neu lai** yn ystod cyfnod y refferendwm, ni fyddwch yn llenwi ffurflen gwariant a rhoddion ar gyfer ymgyrch y refferendwm. Yn lle hynny, rhaid i chi wneud datganiad i ni fod cyfanswm eich gwariant yn llai na £10,000.

I gael rhagor o wybodaeth am beth i roi gwybod i ni amdano ar ôl y refferendwm, gweler [Gwariant ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#) a [Cydweithio ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#).



## Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Os yw'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 0333 103 1928  
[pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)
- Yr Alban: 0333 103 1928  
[infoscotland@electoralcommission.org.uk](mailto:infoscotland@electoralcommission.org.uk)
- Cymru: 0333 103 1929  
[gwytodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwytodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk)
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928  
[infonorthernireland@electoralcommission.org.uk](mailto:infonorthernireland@electoralcommission.org.uk)

Ewch i [www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: [pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)